# Galwad Agored – Byrion Comedi Digidol (10 munud)

**Yn dilyn Llwyddiant y 7 Comedi a gyhoeddwyd llynedd mae S4C yn galw eto!**

Mae S4C wedi bod yn gartref i gomedi Gymreig ers degawdau ac rydym yn chwilio eto am y don nesaf o leisiau comedi i ddod â'r chwerthin yn ôl at galon S4C.

Hoffem dderbyn syniadau gwreiddiol ar gyfer **peilotau comedi 10 munud o hyd**. Dyma gyfle i ni arbrofi gyda fformatau newydd a phrofi ymateb cynulleidfaoedd mewn ffordd gyflym a chreadigol. **Byddwn yn croesawu unrhyw fformat gomedi nid sgriptiau sitcom yn unig.**

Mi fyddwn yn ystyried comisiynu hyd at **10 syniad unigol**, i'w datblygu a'u cyhoeddi fel rhan o **strand comedi digidol S4C**. Mi fydd y cynnwys yma'n cael ei gyhoeddi **yn ddigidol yn unig**.

Rhaid i'r syniadau llwyddiannus fod wedi eu cynhyrchu a'u cyfleu cyn diwedd **Chwefror 2027**.

Bydd angen i bob pitch fod ar ffurf 'deck slide' gan gynnwys:

- Teitl
- Dadansoddiad o'r syniad
- Enghraifft hyd at tudalen o waith sgript
- Cynllun Castio
- Syniad o'r gynulleidfa
- Syniad pendant o naws ac arddull gwaith
- Ychydig o wybodaeth am y tim creadigol allweddol a'ch profiad
- Wrth ymgeisio dylid ystyried oblygiadau cytundebol ar y cynnwys fydd yn byw ar YouTube, Clic, iPlayer

**Cyllideb**

Hyd at £20,000 y prosiect.

**Sut i gyflwyno syniad?**

Os oes gennych ddiddordeb, anfonwch eich syniad at syniad@s4c.cymru erbyn 12:00 *Awst 31ain* Gallwch gyflwyno mwy nag un syniad, ond bydd angen i chi eu cyfleu ar wahân. Byddwn yn cadarnhau derbyn y syniad drwy ebost.

Mae gwefan gynhyrchu S4C http://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/ yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol gan gynnwys gwybodaeth dechnegol, gytundebol a chyfleu os oes cwestiwn am y prosesau cynhyrchu gennych.

Mae'n fwriad gan Beth Angell a Guto Rhun ddewis rhestr fer ganol Medi - cedwir yr hawl i addasu'r amserlen a hysbysir ein bwriad drwy e-bost. Os byddwch yn llwyddiannus bydd angen i'r syniad gael ei roi ar system gomisiynu S4C – Cwmwl. Ni ddylid gwneud hyn cyn cael y gwahoddiad.

Edrychwn ymlaen yn fawr at dderbyn eich cynigion. Cedwir yr hawl i beidio â chomisiynu unrhyw un o'r cynigion a ddaw i law.